

## Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen Waith y Cyngor nos Iau, Ebrill 5ed, 2018 yn brydlon am 7 o'r gloch yn

### **Festri Capel Pencaenewydd**

1. Croesawu'r Cynghorydd Gareth O Davies, 2 Talafon, Llanystumdwy fel Cynghorydd dros Ward Llanystumdwy ar y Cyngor ac arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd.
2. Ymddiheuriadau.
3. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion y Cyngor gynhaliwyd ar Fawrth 8fed, 2018.
4. Arwyddo cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd.
5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
6. Datgan buddiant personol.
7. Cyngor Gwynedd.  
Dim byd hyd yma.
8. Cyngor Gwynedd.  
Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned:
  1. Cais C18/0203/41/CR – Trosi ac ymestyn adeilad allanol er darparu cyfleusterau priodasau; Talhenbont Hall, Chwilog.
  2. Cais C17/0565/41/LL – Cais i godi tŷ deulawr farchnad agored; Tir at Bro Sion Wyn, Chwilog. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990- Apêl o dan ADRAN 78 (1).
  3. Cais C18/0191/41/CR – Codi ail simdde ar yr adeilad; The Old Tollgate, Chwilog
  4. Cais C18/0194/41/LL – Codi ail simdde ar yr adeilad; The Old Tollgate, Chwilog.
9. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog a Pholisiau'r Cyngor.
10. Lwfansau Cyngorwyr Cymuned a Thref 2018-19; enghraifft o ffurflen.
11. Un Llais Cymru
  - a. Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
  - b. Polisi Cwynion.
  - c. Cynhadledd ar y cyd gyda'r SLCC; Llandrindod, Mai 16eg, 2018.
12. **Materion yn y gymuned.**  
Llanarmon  
Llanystumdwy –  
Rhoslan /Ynys  
Chwilog  
Pencaenewydd/Sardis  
Mater gan y Cyngorwyr Angela Williams a William Ifor Hughes.  
Llangybi  
Materion gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones.
13. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2018 ymlaen.
  - a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
  - b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
  - c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
  - ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
  - d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
  - dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
14. Cadw safle bedd D Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.
15. Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi am y tair blynedd nesaf.
16. Gohebiaeth oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd ynghylch wal maes parcio Llanystumdwy ac ymyly ffordd rhwng Bod Alaw a thai Groesffordd yn Chwilog.

17. Cyfarfod Cyhoeddus i drafod ffordd ymlaen i achub ein clybiau ieuenctid, Ebrill 7fed, 10yb, Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth.

**Materion Ariannol**

18. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

19. Trefniadau ar gyfer Archwiliad Ariannol Mewnol y Cyngor

20. Anfonebau angen eu talu:

1. Aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn 2018/19; £283-; taliad BACS.

2. GL Jones Playgrounds am eu gwaith yng Nghae Chwarae Llangybi; mae'r anfoneb yma gryn dipyn yn uwch na'r pris gwreiddiol oherwydd bu rhaid gwneud gwaith ychwanegol; £2,424- yn cynnwys TAW, taliad BACS. (y pris gwreiddiol oedd £1,965.60c yn cynnwys TAW)

3. Neuadd Llanystumdwy, taliad am WIFI i'r neuadd 1 Ionawr 2018 – 28 Chwefror 2018; £65.87c taliad BACS.

4. Delwedd Ltd., taliad am safle we'r Cyngor, costau lletya blynyddol a chynhaliadau blynyddol; £462.47c yn cynnwys TAW, taliad BACS.

21. Cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol Ebrill 2018 ymlaen.

Cyflog y Clerc; o Ebrill 1af, 2017, symud i fyny ar y raddfa o SCP 21 i SCP 22 sef £10,739c yr awr x 30 awr y mis x 12 mis = £3,866.04c y flwyddyn.

It is possible to get an English translation, contact the Clerk.